
# Bod yn Ddwyieithog yn Sir Gâr
# Being Bilingual in Carmarthenshire



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Beth yw ystyr bod yn ddwyieithog?



Y gallu i fyw eich bywyd bob dydd yn defnyddio dwy iaith. Y gallu i newid o un iaith i'r llall yn rhugl a hyderus pan fyddwch yn dymuno.

## Oeddech chi'n gwybod?

Yn Sir Gaerfyrddin y mae'r ail mwyaf o siaradwyr Cymraeg o holl siroedd Cymru, ac felly'r byd!

Mae tua thri chwarter o bobl y byd yn siarad dwy iaith neu ragor.

## Pwy fyddai'n meddwl?!

Mae dwyieithrwydd yn cryfhau'r galluoedd gwybyddol – mae pobl ddwyieithog yn tueddu bod yn fwy creadigol a hyblyg. Maent yn tueddu i fod â meddwl mwy agored, ac maent hefyd yn ei chael yn haws canolbwyntio ar amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd.

# What does being bilingual mean?



The ability to live your everyday life using two languages. Being able to switch from one language to another fluently and confidently whenever you like.

## Did you know?

Carmarthenshire has the second highest number of Welsh speakers in any of the Counties in Wales, and therefore in the world!

About three quarters of the world population speaks two or more languages.

## Who'd have thought?!

Bilingualism strengthens cognitive abilities - bilingual people tend to be more creative and flexible. They can be more open-minded, and they also find it easier to focus on a variety of tasks simultaneously.

# Manteision bod yn ddwyieithog



## Gyrfa

- Mae siarad dwy iaith yn rhoi sgil arall i'w roi ar eich ffurflen gais
- Ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% o gyflog ychwanegol
- Mae angen gweithluoedd dwyieithog ar gyflogwyr yng Nghymru, gan fod angen darparu gwasanaethau'n ddwyieithog

## Addysg

- Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus mewn addysg. Maent yn tueddu i gyflawni'n well mewn tasgau
- Mae pobl ddwyieithog yn ei gweld yn haws i ddysgu ieithoedd ychwanegol
- Mae plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn gwneud gystal, os nad gwell, yn Saesneg â phlant sy'n cael addysg Saesneg

## Bywyd

- Mae siarad dwy iaith yn ehangu eich gorwelion
- Mae medru'r iaith Gymraeg yn rhoi mynediad i'r ddiwylliant, hanes a hunaniaeth Cymru
- Mae medru'r Gymraeg yn allwedd i fywyd cymunedol cyfoeth og
- Mae medru'r Gymraeg yn rhoi hunaniaeth gadarn ac ymdeimlad o berthyn
- Mae medru newid o un iaith i'r llall yn hyderus yn magu hyder a balchder
- Gall pobl aml-ieithog fod yn fwy goddefgar tuag at ddiwylliannau eraill

## Iechyd

- Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn gohirio dechreuad Dementia a symptomau eraill clefyd Alzheimer



# The advantages of being bilingual



## Career

- Speaking two languages is an extra skill to put on your application form
- Bilingual people earn an average of 11% more
- Employers need bilingual workforces in Wales, because services need to be offered bilingually

## Education

- Bilingual children tend to be more successful in education. They tend to perform better in tasks
- Bilingual people find it easier to learn additional languages
- Children in Welsh medium education do just as well, if not better, in English as children in English medium education



## Life

- Speaking two languages widens your horizons
- Being able to speak Welsh gives you access to Welsh culture, history and identity
- Speaking Welsh can provide a key to a rich community life
- Being able to speak Welsh gives you a strong sense of identity and belonging
- Being able to switch from one language to the other with confidence gives self-confidence and pride
- Speaking many languages can make people more tolerant towards other cultures

## Health

- Research shows that that being bilingual delays the onset of Dementia and other symptoms of Alzheimer


# Llwybr i'r Gymraeg




Gall pob plentyn yn Sir Gâr ddod yn ddwyieithog drwy gael addysg Gymraeg. Fe allwch chi ddechrau taith eich plentyn at ddwyieithrwydd o'r crud.


## Cyn oed Ysgol

- **Grwpiau Cymraeg i Blant** - Grwpiau i rieni plant ifanc iawn (babis yn bennaf ) sy'n cefnogi ac annog rhieni a darpar rieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant
- **Cylchoedd Ti a Fi** – Grŵpiau i rieni a phlant bach lle gall eich plentyn fwynhau chwarae a gwneud ffrindiau mewn awyrgylch Gymraeg
- **Meithrinfeydd** – Mae yna feithrinfeydd dydd Cymraeg a dwyieithog sy'n cyflwyno'r Gymraeg i blant o'r cychwyn, drwy weithgareddau yn Gymraeg a thrwy gyfathrebu'n Gymraeg gyda'r babis a'r plant bach
- **Cylchoedd Meithrin** – Sesiynau addysg a datblygiad i blant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol. Mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu trwy chwarae yn Gymraeg
- **Dosbarthiadau Meithrin yn yr ysgol** – Mae gan rai ysgolion ddosbarthiadau Meithrin a bydd y dosbarthiadau hyn fel arfer yn Gymraeg os yw'r ysgol yn un Gymraeg



Ceisiwch siarad cymaint ag y gallwch yn Gymraeg gyda'ch plant. Fe fydd hyn yn eu cynorthwyo i siarad yn naturiol a hyderus. Am restr o eiriau ac ymadroddion defnyddiol i'w defnyddio gyda phlant bach, ewch i **www.sirgar.llyw.cymru**


# Path to Welsh




Every child in Carmarthenshire can become bilingual by taking advantage of Welsh medium education in the county. You can start your child's journey to bilingualism from the outset.

## Pre-school Age

- **Cymraeg for Kids groups** - groups to support and encourage parents and prospective parents to transfer the Welsh language to children.
- **Ti a Fi Groups** - for parents and young children where your child can enjoy playing and making new friends in a Welsh atmosphere
- **Nurseries** - There are Welsh and bilingual day nurseries for children which introduce Welsh to children from the start, through Welsh activities and by communicating in Welsh with babies and toddlers
- **Cylchoedd Meithrin Nursery Groups** – Welsh medium playgroups, promoting education and development for children from two years old to school age; an opportunity for children to socialise and learn through play in Welsh
- **Meithrin Classes in the school** - Some schools have nursery classes and these classes are usually in Welsh if the school is a Welsh medium school, and will often be in Welsh in dual stream schools also.



All organisations welcome non-Welsh speaking parents who want to introduce their children to Welsh. Try to talk as much as you can in Welsh with your children. This will help them to speak naturally and confidently. For a list of useful words and phrases for small children go to **www.carmarthenshire.gov.wales**

## Ysgolion Cynradd

Yn Sir Gâr, ceir addysg cyfrwng Cymraeg i holl blant a phobl ifanc o fewn cyrraedd rhesymol i'w cartrefi.

- Mae addysg Gymraeg yn defnyddio Cymraeg fel cyfrwng addysgu, ac fe fydd y plant yn dysgu Cymraeg a Saesneg fel pwnc yn ogystal.
- Bydd plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn gallu trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, beth bynnag yw iaith y cartref.
- Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn trochi plant yn y Gymraeg o'r dechrau. Mae'r plant yn siarad Cymraeg yn y dosbarth ac yn cael eu hannog i ddefnyddio Cymraeg wrth gymdeithasu ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Ceisiwch siarad cymaint ag y gallwch yn Gymraeg gyda'ch plant. Fe fydd hyn yn eu cynorthwyo i siarad yn naturiol a hyderus. Am restr o eiriau ac ymadroddion defnyddiol i'w defnyddio gyda phlant bach, ewch i **www.sirgar.llyw.cymru**

Mae arbenigwyr yn cydnabod bod angen i iaith leiafrifol fel Cymraeg gael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd er mwyn i berson fod yn wirioneddol ddwyieithog.

## Pwy fyddai'n meddwl?

Nid oes yn rhaid i blant ifanc ddysgu ieithoedd fel y mae oedolion yn gwneud. Gallant ymsugno ieithoedd newydd os ydynt yn dod i gysylltiad digonol â nhw.

## Primary schools

In Carmarthenshire, Welsh medium education is available to all children and young people, within reasonable travelling distance from their homes.

- In Welsh medium education, Welsh is used as the medium for teaching, but both Welsh and English are taught as a subject also.
- All children who receive Welsh medium education will be able to transfer to Welsh medium secondary education regardless of the language used at home.
- Welsh medium education immerses children in the Welsh language from the start. The children speak Welsh in class and are encouraged to use Welsh when socialising and taking part in activities.

All organisations welcome non-Welsh speaking parents who want to introduce their children to Welsh.

Try to talk as much as you can in Welsh with your children. This will help them to speak naturally and confidently. For a list of useful words and phrases for small children go to www.carmarthenshire. gov. wales

Experts recognize that a minority language like Welsh needs to be used in all aspects of life in order for an individual to be truly bilingual.

## Who'd have thought?

Young children don't need to learn a language as adults do. They absorb languages if they are exposed to them enough.

## Ysgolion Uwchradd



Mae addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gael o fewn pellter rhesymol i bob cartref yn Sir Gaerfyrddin.


- Gall unrhyw blentyn sydd yn rhugl ddwyieithog yn yr ysgol gynradd ddilyn llwybr llyfn i addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.
- Yn union fel yn y cynradd, fe addysgir Cymraeg a Saesneg fel pynciau unigol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Defnyddir y Gymraeg hefyd fel cyfrwng addysgu ar gyfer pynciau eraill ac fel cyfrwng gweithgareddau allgyrsiol. Fel hyn, mae dwyieithrwydd person ifanc yn cael ei gynnal a'i ddatblygu.
- Fe fydd disgwyl i berson ifanc sydd wedi dilyn addysg Gymraeg yn y cynradd i barhau gyda'r rhaglen hon yn yr uwchradd er mwyn iddynt allu parhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol hyd nes iddynt adael ysgol uwchradd.
- Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r llwybr y dylai eich plentyn ddilyn o'r cynradd i'r uwchradd o safbwynt cyfrwng dysgu, fe fydd yr ysgol gynradd ac ysgolion uwchradd cyfagos yn gallu rhoi arweiniad i chi.

* Gan fod Saesneg yn iaith sy'n dominyddu cyfryngau cymdeithasol ayb, mae'n beth da ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth gymaint â phosibl. Mae defnyddio Cymraeg gartref yn eu gweithgareddau hamdden neu wrth wylio'r teledu yn atgyfnerthu eu sgiliau iaith.

**Yr allwedd i bobl ifanc fod yr un mor hyderus y Gymraeg ac yn Saesneg yw iddynt barhau i gymryd mantais o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg ar ôl gadael yr ysgo gynradd. Mae pobl ifanc sy'n ddwyieithog yn 16 neu 18 yn gallu addasu'n arbennig o dda at astudiaethau pellach drwy'r naill iaith neu'r llall mewn unrhyw bwnc.**

## Secondary Schools

There is Welsh medium secondary education available within a reasonable distance from all homes in Carmarthenshire.



- Any young person who has attained bilingual proficiency in primary school will be able to make a seamless transition into Welsh medium education at secondary school.
- Just as in the primary phase, Welsh and English are taught as individual subjects in Welsh medium education. Welsh is also used as the medium of instruction for other subjects as well as the medium for extra- curricular activities. This way, the young person's bilingualism is sustained and developed further throughout his/her education.
- Young people who have followed Welsh medium education at primar y will be expected to continue with this programme at secondary school so that they can continue to develop their linguistic skills until they leave secondar y education.
- If you are unsure about the route that your child should take from primary into secondary education in terms of the teaching medium, your child's primar y school and the local secondary schools will be able to provide guidance.

* As English is a dominant language in terms of the media, social media etc. young people's Welsh language skills benefit from as much exposure outside of the classroom as possible. It is always a good idea to give them the opportunity to use some Welsh at home, in their extra-curricular activities or watching TV.

**The key for young people to be as confident in Welsh as in English is to continue to take up Welsh medium opportunities after primary school. Young people who are bilingual at the age of 16 or 18 can adjust extremely well to further studies through either language in any subject.**

# Pryderon cyffredin rhieni

## 'Sut alla i helpu gyda gwaith cartref fy mhlentyn os nad ydw i'n siarad llawer o Gymraeg?'

Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plentyn ei wneud.  Bydd pob ysgol unigol yn fodlon cynnig cyngor ar addysg a bydd y nosweithiau rhieni yn eich dewis iaith chi.

Mae gwefan **hwb.gov.wales** yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau ac adnoddau dysgu cenedlaethol.

Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl.  Fe fydd, felly, o fewn cyrraedd i'ch plentyn.

Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, mae'n debygol y byddant yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol gan rieni.

## 'Bydd y plant yn drysu a bydd eu Saesneg yn dioddef'

Ar gyfartaledd, mae plant dwyieithog yn cyflawni'n well yn Saesneg.  Hefyd, drwy esbonio'r gwaith cartref i'w rhieni yn Saesneg, mae'r plentyn yn atgyfnerthu ei wybodaeth, a dyfnhau ei ddealltwriaeth ei hun.  Gofynnwch i'ch plentyn ddisgrifio yr hyn y mae'n ei gwneud yn ei eiriau ei hun.

Ar gyfartaledd, mae tua 80% o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin sy'n derbyn addysg Gymraeg yn cael A* i C yn eu TGAU Saesneg a Chymraeg.



# Common parental concerns

## ‘How can I help my child with homework if I don’t understand much Welsh myself?’

Welsh schools set homework instruction in Welsh and in English so there will be no problem in understanding what your child is being asked to do at home.  The schools themselves will be happy to provide educational advice and the parents evening will be in your chosen language.

**hwb.gov.wales** provides access to a range of nationally provided digital Learning tools and resources.

Work set will be appropriate to the pupil’s age and ability level and therefore should be within your child’s reach.

Developing increasingly as independent learners, you may find that your child is happy to progress without extra parental guidance as they get older.

## ‘The children will be confused and their English will suffer.’

On average, bilingual children achieve higher grades in the English language.  Also, as a child explains homework in English to the parent, their own understanding is reinforced.  Ask your child to describe what he/she is doing in his own words.

On average, about 80% of Carmarthenshire pupils who attend Welsh medium education get A* to C in Welsh and in English.



# Parhau â'r Gymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwchradd

## Coleg Sir Gâr

- Mae cyfleoedd i astudio'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyrsiau addysg bellach, addysg uwch a'r prentisiaethau ar bum campws y Coleg.
- Mae darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y meysydd canlynol: Chwaraeon, Gwasanaethau Cyhoeddus, Busnes, Celf a Dylunio, Arlwyo, Addysg, Adeiladwaith, Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Amaethyddiaeth.
- Gall myfyrwyr gael lleoliadau gwaith dwyieithog a gwella eu sgiliau Cymraeg wrth ddilyn uned gwasanaeth cwsmer yn y meysydd galwedigaethol a fydd o gymorth wrth iddynt fynd i fyd gwaith.

colegsirgâr

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Mae prifysgolion yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r byd yn croesawu myfyrwyr sydd wedi astudio eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

- Y Drindod Dewi Sant yw un o brif ddarparwyr addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae modd astudio nifer cynyddol o raglenni israddedig ac ôl-raddedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg ar Gampws y Brifysgol yng Nghaerfyrddin gan gynnwys Hyfforddi Athrawon (addysg gynradd), Addysg Gorfforol, Addysg Awyr Agored, Gwaith Ieuenctid a Chymuned, Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar, Astudiaethau Addysg Gynradd, Busnes ac Astudiaethau Crefyddol.
- Mae'r Brifysgol yn darparu cefnogaeth i'r myfyrwyr hynny sy'n ansicr ynghylch astudio eu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg gan ddarparu rhaglenni Gloywi Iaith ar y Campws a thrwy apiau a rhaglenni dysgu o bell.

# Continuing with Welsh in Further and Higher Education

## Coleg Sir Gâr

- There are opportunities to study bilingually or through the medium of Welsh and on the College's further education and higher education courses, as well as in apprenticeships.
- There is a Welsh medium and bilingual provision in the following fields: Sport, Public Services, Art and Design, Catering, Education, Construction, Health and Social Care and Agriculture.
- Students can have bilingual work placements and they can improve their Welsh skills by following a customer services unit in the vocational courses which will be useful as they go into the world of work.

colegsirgâr

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Universities in Wales, the UK and worldwide welcome students who have studied their subjects through the medium of Welsh.

## University of Wales Trinity St David

- Trinity Saint David is a leading provider of Welsh medium higher education. It is possible to study an increasing number of undergraduate and postgraduate programs in whole or in part through the medium of Welsh at the University Campus in Carmarthen including Teacher Training (primary education), Physical Education, Outdoor Education, Youth and Community Work, Early Years Care and education, Primary education Studies, Business and Religious Studies.
- The University provides support for those students who are unsure about studying through the medium of Welsh by providing Language Improvement programs on the campus and through apps and distance learning programmes.

# Cyfeiriadur

## Cymraeg i Blant

Cynllun newydd gan Lywodraeth Cymru, a reolir gan Mudiad Meithrin, yw Cymraeg i Blant. Prif nod y cynllun yw cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i rieni, darpar rieni a'u teuluoedd ar fuddion addysg/gofal Cymraeg a chyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'w plant.

Yn Sir Gâr mae gwaith 'Cymraeg i Blant', o ddydd i ddydd, yn canolbwyntio ar gynnig; Grwpiau cyn-geni (cynllun peilot yn cydweithio gyda bydwragedd/ysbytai'r Sir, Grwpiau Tylino (10 wythnos +), Grwpiau Ioga Babi (10 wythnos +) a Grwpiau Stori a Chân (0-3 oed).

Mae'r grwpiau hyn yn addas i ddysgwyr, rhieni di-Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â grwpiau lleol cysylltwch â Cymraeg i Blant ar 01970 639639

www.facebook.com/cibsirgar
www.facebook.com/Cymraegiblant

CYMRAEG I Blant For Kids

## Mudiad Meithrin

Mudiad Meithrin yw prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol. Y nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cylchoedd Ti a Fi yn cynnig gweithgareddau sy'n helpu datblygiad plant o enedigaeth ac mae'r Cylchoedd Meithrin yn darparu addysg a hyrwyddo datblygiad plant 2 flwydd oed hyd at oed ysgol.

I ddarganfod eich Cylch Ti a Fi neu Gylch Meithrin lleol, ewch at www.meithrin.cymru / Ffôn: 01970 639639

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

## URDD

Mae'r Urdd yn un o fudiadau ieuenctid mwya Ewrop ac mae'n cynnig cyfleoedd a gweithgareddau amrywiol i blant a phobl ifanc i ddysgu ac i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan yr Urdd, sy'n fudiad cyffrous a deinamig, dros 6,000 o aelodau yn Sir Gaerfyrddin rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Maent yn cynnig cyfleoedd diwylliannol a hamdden drwy'r ysgol, mewn clybiau cymunedol ac yn ystod y gwyliau, ac mae'r Urdd yn darparu ystod eang o gystadlaethau chwaraeon hefyd.

I gysylltu gyda'r Urdd yn Sir Gaerfyrddin:

01267 676 751 / www.urdd.cymru/cy/fy-ardal-myrddin

Urdd

# Directory

## Cymraeg i Blant

Cymraeg for Kids is a new Welsh Government project, managed by Mudiad Meithrin. Its main aim is to offer information, support and advice to parents, parents to be and their families on the benefits of speaking Welsh and Welsh medium education and childcare.

In Carmarthenshire, Cymraeg for Kids offers a variety of free groups including; 'ante-natal groups' (a pilot scheme working in partnership with local midwives), Baby Massage groups (10 weeks+), Baby Yoga Groups (10 weeks +) and Rhymetime (0-3 years).

Welsh learners, non-Welsh speaking parents and Welsh speakers are all welcome to attend the groups. For more information contact Cymraeg for Kids on 01970 639639

www.facebook.com/cibsirgar
www.facebook.com/Cymraegiblant

## Mudiad Meithrin

Mudiad Meithrin is the main provider of Welsh-medium early years care and education in the voluntary sector. The aim is to give every young child in Wales the opportunity to benefit from early years care and educational experiences through the medium of Welsh. Cylchoedd Ti a Fi (Parent and toddler) offer activities for children from birth, while Cylchoedd Meithrin (playgroups) welcome children from 2 years to school age.

To find your local Cylch Ti a Fi or Cylch Meithrin go to www.meithrin.cymru/ Phone: 01970 639639

## URDD

The Urdd is one of the largest youth organisations in Europe and it offers opportunities and activities for children and young people to learn and socialise through the medium of Welsh. The Urdd is an exciting, dynamic movement over 6,000 members in Carmarthenshire between 8 and 25 years. They offer cultural and sporting opportunities through the school, in community clubs and during school holidays, and the Urdd provides a wide range of Sports competitions too.

To contact the Urdd in Carmarthenshire:

01267 676 751 / www.urdd.cymru/cy/fy-ardal-myrddin

## Ffermwyr Ifanc

Mae'r Ffermwyr ifanc yn fudiad ieuenctid sy'n darparu cyfleoedd i 800 o aelodau rhwng 10 a 26 oed sy'n byw yn Sir Gâr. Mae 23 o Glybiau yn Sir Gâr sy'n cael eu rhedeg gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc. Mae'r mudiad yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau arbennig i'r aelodau wrth iddynt ddatblygu sgiliau newydd, ennill hyfforddiant, teithio'r byd, bod yn rhan annatod o'r gymuned a chael cyfle i wneud ffrindiau am oes.

Rhif ffôn: 01267 237693, E-bost: sir.gar@yfc-wales.org.uk

## Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Trwy gydweithio â phrifysgolion Cymru, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sicrhau ac yn datblygu rhagor o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr Cymru. Mae'n noddi darlithwyr cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig ysgoloriaethau sy'n galluogi i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ddilyn cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir nifer helaeth o gyrsiau yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru. Mae hyn yn darparu cyfleoedd pellach i fyfyrwyr gael hyfforddiant i baratoi ar gyfer cyflogaeth ac ymateb i'r galw cynyddol am y gallu i weithio trwy gyfrwng dwy iaith yng Nghymru.

## Cymraeg i oedolion

Mae llawer o gyrsiau ar gael i rieni ac oedolion sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg yn Sir Gâr. Gallwch gael gwybodaeth am gyrsiau drwy ymweld â www.dysgucymraeg.cymru neu ffonio'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ar 0300 323 4324.

## Mentrau Sir Gâr

Mae'r Mentrau Iaith yn fudiadau cymunedol, gwirfoddol a deinamig sy'n hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae tair Menter iaith yn Sir Gâr sef Menter Gorllewin Sir Gâr, Menter Bro Dinefwr a Menter Cwm Gwendraeth Elli. Mae'r Mentrau yn cynnal, hyrwyddo a chydlynu gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau ar draws y sir ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc, y gymuned a'r economi. Nod y tair menter ydy hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn Sir Gâr, gan sicrhau bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog o fywyd holl drigolion y sir.

Menter Gorllewin Sir Gâr -
ymholiad@mgsg.cymru / 01239 712934
Menter Bro Dinefwr -
post@menterdinefwr.cymru / 01558 825336
Menter Cwm Gwendraeth Elli -
post@mcge.org.uk / 01269 871600

## Young Farmers

The Young Farmers is a youth movement that provides opportunities for 800 members between the ages of 10 and 26 in Carmarthenshire. There are 23 Clubs in Carmarthenshire that are run by young people for young people. The movement offers opportunities and special experiences for the members as they develop new skills, receive training, travel the world, become an integral part of the community and have the opportunity to make friends for life.

Phone: 01267 237693, E-mail: sir.gar@yfc-wales.org.uk

Sir Gâr

## Coleg Cymraeg Cenedlaethol

The Coleg Cymraeg Cenedlaethol works with universities across Wales to develop Welsh language medium opportunities for students. It funds Welsh medium lecturers and offers undergraduate and postgraduate scholarships for students to study higher education courses through the medium of Welsh. There are a number of courses offering some provision through the medium of Welsh in the Welsh Universities. This provides opportunities for students to access training to prepare for employment and the increasing demand for the ability to work through the medium of both languages in Wales.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Cymraeg i oedolion

There are many courses available for parents and adults eager to learn Welsh in Carmarthenshire. You can find out about Welsh courses by visiting www.learnwelsh.cymru or ringing the National Centre for Learning Welsh on 0300 323 4324

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Sir Gâr
Carmarthenshire

## Mentrau Sir Gâr

The Mentrau Iaith are voluntary and dynamic community organisations that promote the Welsh language. There are three Menter Iaith in Carmarthenshire; Menter Gorllewin Sir Gâr, Menter Bro Dinefwr a Menter Cwm Gwendraeth Elli. The Mentrau provide, promote and coordinate activities, events and services across the county for families, children and young people, the community and the economy. The aim of the Mentrau is to promote and expand the use of the Welsh language at community level in Carmarthenshire, ensuring that the language becomes an integral part of the life of all residents in the county.

Menter Gorllewin Sir Gâr -
ymholiad@mgsg.cymru / 01239 712934
Menter Bro Dinefwr -
post@menterdinefwr.cymru / 01558 825336
Menter Cwm Gwendraeth Elli -
post@mcge.org.uk / 01269 871600

Menter Gorllewin Sir Gâr

Menter Bro Dinefwr

menter
Menter Cwm Gwendraeth Elli

## Will my child's thinking be affected by being bilingual?

The answer is "yes", and probably for the better. The presence of two languages in the operating system of the brain is likely to produce a more richly-fed thinking engine. (Baker, 2000: 66-67)

Ar gyfer llyfryddiaeth a gwybodaeth bellach am y gosodiadau yn y llyfryn hwn, ewch at **sirgar.llyw.cymru/bod-yn-ddwyieithog**

For references and further information on any of the statements in this document, go to: **carmarthenshire.gov.wales/being-bilingual**

recycle
ailgylchu
Please recycle this publication
Cofiwch ailgylchu'r cyhoeddiad yma

SR30113